Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 16.09.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ADNODDAU: Sticeri 'Yn falch o gefnogi'r Safle Treftadaeth y Byd'

Mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru bellach yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, yn union fel y Taj Mahal a Phyramidiau yr Aifft. Mae modd i fusnesau ddangos eu cefnogaeth i'r Safle Treftadaeth y Byd drwy osod sticer 'Yn falch o gefnogi'r Safle Treftadaeth y Byd' yn ffenestr eu busnes. I ddysgu mwy, gwylio fideos a dod o hyd i adnoddau ar gyfer eich busnes, ewch i:

http://www.llechi.cymru/

Oes ydych am dderbyn cyflenwad o'r sticeri cysylltwch gyda'r Tîm ar llechi@gwynedd.llyw.cymru

# IECHYD A DIOGELWCH: Diweddariadau HSE

- Amddiffyn pobl ifanc yn y gwaith
  Mae pobl ifanc yn debygol o fod yn newydd i'r gweithle ac felly mewn mwy o berygl o gael eu hanafu yn ystod chwe mis cyntaf swydd, oherwydd efallai y byddan nhw'n llai ymwybodol o risgiau. I gael gwybod mwy am amddiffyn pobl ifanc yn y gwaith, ewch i:
  https://www.hse.gov.uk/young-workers/employer/index.htm

- Adrodd ar ddamweiniau a salwch yn y gwaith – RIDDOR
  Mae RIDDOR yn rhoi dyletswyddau ar gyflogwyr, yr hunan-gyflogedig a phobl sy'n rheoli safleoedd gwaith i roi gwybod am rai damweiniau difrifol yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodedig. Am ragor o wybodaeth, ewch i:
  https://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm

# DIGWYDDIAD: Gogledd Creadigol – Brand-New(ydd) 22 Medi 2022

Bydd Gogledd Creadigol yn cynnal digwyddiad brandio yng Ngholeg Menai, Llangefni ar 22 Medi 2022 (3:00pm-6:00pm), lle bydd cyfle i glywed gan arbenigwyr brandio a chymryd rhan mewn gweithdy ymarferol i hybu eich brand. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://brandnew-ydd.eventbrite.co.uk

# CYFLOGAETH: Cynllun newydd i helpu pobl ag anableddau dysgu i gael gwaith

Elfen allweddol o Gynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru yw helpu pobl ag anableddau dysgu i ddod o hyd i waith. Mae mwy o wybodaeth am y cynllun ar gael ar:

https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-strategol-anabledd-dysgu-2022-i-2026-html

Mae'r rhaglen WorkFit yn darparu cyflogaeth, hyfforddiant a chymorth i bobl ag anableddau dysgu er mwyn eu helpu i ymuno â'r gweithle a pharhau'n rhan ohono. Mae mwy o wybodaeth am raglen WorkFit ar gael ar:

https://www.dsworkfit.org.uk/

Gall tîm Gwaith Gwynedd y Cyngor hefyd gynnig cymorth a chyngor, am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Swyddi/Cefnogaeth-i-waith.aspx

# COVID-19: Dechrau rhoi pigiadau atgyfnerthu COVID-19 yr hydref

Mae y broses o gyflwyno pigiadau atgyfnerthu COVID-19 yr hydref wedi dechrau. Bydd pawb sy'n gymwys ar gyfer pigiad atgyfnerthu yr hydref yn cael eu gwahodd am frechiad erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, gyda gwahoddiadau'n cael eu rhoi yn nhrefn y rhai mwyaf agored i niwed. Gall busnesau helpu trwy annog staff sy'n gymwys i gael eu brechu a chaniatáu amser i ffwrdd iddynt fynd i'w hapwyntiad. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://llyw.cymru/dechrau-rhoi-pigiadau-atgyfnerthu-covid-19-yr-hydref-heddiw-yng-nghymru

# CYFLE: 'Solutions Catalyst' ArloesiAber

Mae cyfle i fusnesau o'r sectorau bwyd a diod, economi gylchol a thechnoleg amaeth ennill tocyn gwerth hyd at £30,000 i gael mynediad i gyfleusterau o'r radd flaenaf ArloesiAber ac arbenigedd academaidd Prifysgol Aberystwyth. Bydd gweminar i'w gynnal ar 21 Medi 2022 (10:00am-11:00am) yn hysbysu ymgeiswyr am y gystadleuaeth, ewch i:

https://bit.ly/3eXj1Dz

Mae mwy o wybodaeth am ‘Solutions Catalyst’ ArloesiAber a’r gystadleuaeth, sy’n cau ar 14 Hydref 2022, ar gael ar:

https://aberinnovation.com/cy/hwb-datblygu/solutions-catalyst/

# DIGIDOL: Cyflymu Cymru i Fusnesau – Gweminarau am ddim

Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau ystod o weminarau rhad ac am ddim yn yr wythnosau nesaf sy’n rhoi cyngor ymarferol i chi i helpu hyrwyddo’ch busnes a chystadlu ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

- Mae Croeso Cymru a Cyflymu Cymru i Fusnesau wedi dod at ei gilydd i helpu busnesau lletygarwch a thwristiaeth yng Nghymru i gael yr holl gymorth digidol sydd ei hangen arnynt, gwyliwch y fidio i ddarganfod mwy ar:
  https://youtu.be/bH8ouA65GPM

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru